# Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r rheolwr data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data (DPA) 1998 y DU a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae gan Y Drindod Dewi Sant Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag e yn: foi@uwtsd.ac.uk

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Brifysgol yn trafod ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn ystod eich cyfnod yn fyfyriwr ac ar ôl graddio. Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw am y wybodaeth sydd ganddi. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu polisi diogelu data y gellir ei weld yma: https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.0-Data-Protection-Policy-reviewed-approved-12.05.20-cym.pdf

Gallai nifer o adrannau'r Brifysgol gasglu gwybodaeth bersonol a rhoddir hysbysiadau prosesu teg adeg casglu yn ôl y gofyn

## Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Bydd Y Drindod Dewi Sant yn casglu gwybodaeth amdanoch chi wrth ymwneud â chi'n fyfyriwr cyfredol neu flaenorol, er enghraifft wrth wneud cais, wrth gofrestru ac wrth fynd yn eich blaen trwy eich rhaglen astudio. Mae'n bosibl hefyd y cawn ni wybodaeth amdanoch chi o'r tu allan i'r Brifysgol, megis gwybodaeth gan UCAS ynghylch eich cais UCAS, yn ogystal â gwybodaeth a roddir gan ganolwyr. Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a brosesir yn cynnwys y canlynol, er nad yw'n gyfyngedig i'r rhain:

- Manylion cyswllt a gwybodaeth arall a gyflwynwyd yn ystod y prosesau ymgeisio a chofrestru.
- Manylion rhaglenni astudio, modylau, amserlenni ac archebion ystafelloedd, marciau asesu ac arholiadau.
- Gwybodaeth ariannol a phersonol a gasglwyd at ddibenion gweinyddu ffioedd a thaliadau, benthyciadau, grantiau, ysgoloriaethau a chronfeydd caledi.
- Ffotograffau, a recordiau fideo at ddiben cofnodi darlithoedd, asesu myfyrwyr ac arholiadau.
- Gwybodaeth am ymgysylltiad unigolyn â Phrifysgol megis gwybodaeth presenoldeb a defnydd gwasanaethau electronig megis Moodle.
- Manylion cyswllt perthynas agosaf i'w defnyddio mewn argyfwng.
- Gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atal neu ddarganfod trosedd neu ddiogelwch staff a myfyrwyr, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i hyn, recordio teledu cylch cyfyng a data ynghylch torri rheoliadau'r Brifysgol.
- Gwybodaeth a gasglwyd at ddibenion monitro cyfleoedd cyfartal.
- Gwybodaeth ynghylch darparu cyngor, cymorth a lles, megis data sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaethau a gynigir gan Wasanaethau Myfyrwyr.  Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol: Copïau o basbortau, fisâu ac unrhyw ddogfennau eraill gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Swyddfa Cartref yn ogystal â

data biometreg at ddibenion presenoldeb. Mae gennym hefyd ddata presenoldeb am fyfyrwyr cartref.

- Ar gyfer myfyrwyr y DU: Copïau o basbortau neu unrhyw ddogfennau gofynnol eraill i sicrhau dilysrwydd i dderbyn cymorth ariannol gan lywodraeth y DU ac mewn cydymffurfiaeth â'r hawl i astudio a gofynion adnabod.

## Sut y caiff eich gwybodaeth chi ei defnyddio?

Er nad yw'n bosibl nodi pob diben y defnyddir eich gwybodaeth ato, isod rhoddir enghreifftiau o'r modd y mae'n debygol o gael ei defnyddio tra byddwch yn fyfyriwr. Mae'r rhif mewn cromfachau'n cyfeirio at y ***sail gyfreithiol*** fel y'i diffinnir o dan Reoliad GDPR ac a nodir yn y tabl isod, y mae'r Brifysgol yn dibynnu arni, er mwyn prosesu eich data'n gyfreithlon.

- Gweinyddu eich astudiaethau a chofnodi eich cyflawniadau academaidd (e.e. eich dewisiadau modwl, arholiadau ac asesiadau, a rhaglenni graddio) (1)
- Cynorthwyo gydag anghenion bugeiliol, lles, a chymorth dysgu (e.e. Gwasanaethau Myfyrwyr) (2)
- Gweinyddu cymorth ar gyfer eich holl anghenion cyflogadwyedd (e.e. manteisio ar gyngor gyrfaoedd). Cedwir eich gwybodaeth ar ôl i chi raddio er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i allu manteisio ar y cymorth gyrfaol llawn y mae'r Brifysgol yn ei gynnig i bob un o'i graddedigion (3).
- Gweinyddu agweddau ariannol ar eich cofrestriad yn fyfyriwr (e.e. talu ffioedd, casglu dyledion) (1)
- Darparu neu gynnig cyfleusterau a gwasanaethau i fyfyrwyr (e.e. cyfleusterau chwaraeon, cyfleusterau cyfrifiadura a'r Llyfrgell) (1)
- Cynnal ymchwiliadau yn unol â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau academaidd a rhai sy'n wynebu myfyrwyr (1)
- Gweithredu prosesu a threfniadau diogelwch, disgyblaeth , cwynion sy'n ymwneud â myfyrwyr a sicrhau ansawdd (1)
- Llunio ystadegau rheoli a chynnal ymchwil i effeithiolrwydd ein rhaglenni astudio yn ogystal â chreu ystadegau at ddibenion statudol (4),(5)
- Monitro ymgysylltiad pob myfyriwr â'i astudiaethau a myfyrwyr ar Fisâu Haen 4 i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau eu nawdd (4)
- Cynyddu cyfleoedd unigolyn i lwyddo trwy ddefnyddio dulliau dadansoddi dysgu a ddefnyddir i fesur ymgysylltiad unigolyn â'i astudiaethau. Bydd hyn yn cynnwys prosesu data, megis presenoldeb, asesu a defnydd ar ADRh (Amgylchedd Dysgu Rhithwir) i ddatblygu darlun cyffredinol o ymgysylltu. Ni fydd y prosesu hwn yn digwydd ond pan fydd ei angen wrth ddilyn buddiannau cyfreithlon y Brifysgol neu'r myfyriwr ac ond pan na fydd y prosesu wedi ei warantu ac na fydd yn effeithio'n andwyol ar hawliau a rhyddid, neu fuddiannau cyfreithlon, y myfyrwir. Ni chaiff data personol sensitif / arbennig eu prosesu ond pan fydd y Brifysgol yn ystyried tueddiadau a dadansoddi patrymau er mwyn llunio adroddiadau ystadegol i reolwyr (3), (5).
- Monitro ein cyfrifoldebau o dan bolisïau cyfleoedd cyfartal (4), (5).
- At ddibenion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) – mae gofyn i'r Drindod Dewi Sant anfon ychydig o'r wybodaeth a gasglwn am fyfyrwyr i HESA at ddibenion dadansoddi ystadegol (4), (5). Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am y modd y defnyddir eich data personol gan HESA.
- Ar gyfer yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a/neu drydydd parti o dan gontract, i gynnal arolygon allanol a feincnodir megis yr Arolwg Cenedlaethol

o Fyfyrwyr, Arolwg Ymgysylltu'r DU, ac Arolygon Profiadau Ôl-raddedigion a Addysgir a rhai Ymchwil yn ogystal â'r Arolwg Deilliannau Graddedigion a gynhelir ar ôl i chi raddio (4). Cliciwch yma: here i gael rhagor o wybodaeth am y modd y defnyddir eich gwybodaeth.

- At ddibenion eithrio rhag y Dreth Gyngor lle cesglir gwybodaeth bersonol adeg cofrestru a'i rhannu ag Awdurdodau Lleol (3).
- At ddibenion pleidleisio: os byddwch wedi rhoi caniatâd, bydd Y Drindod Dewi Sant yn cysylltu â'r Cyngor Bwrdeistref perthnasol (er enghraifft Dinas a Sir Abertawe, Ceredigion neu Sir Gaerfyrddin) a'ch cofrestru i bleidleisio yn Etholiadau Lleol a Chyffredinol y DU (2).
- Er mwyn cysylltu â chi ar ôl graddio am aelodaeth cyn-fyfyrwyr a digwyddiadau, datblygiadau newydd yn Y Drindod Dewi Sant, cymorth gyrfaol parhaus, cyfleoedd rhwydweithio proffesiynol, parhaus, yr Arolwg Deilliannau Graddedigion, digwyddiadau sydd a diweddaru eich dewisiadau i sicrhau bod eich profiad o Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant mor fuddiol ag y bo modd.
- Os rhoddwyd caniatâd, bydd y Brifysgol hefyd yn rhannu data ethnigrwydd i alluogi Undeb y Myfyrwyr i fonitro a hyfforddi ymgysylltiad Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (3), (2).

| Sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth | |
|---|---|
| (1) | Pan fyddwch yn cofrestru'n fyfyriwr yn Y Drindod Dewi Sant, bydd gofyn i'r Brifysgol gasglu, storio, ddefnyddio a phrosesau fel arall wybodaeth amdanoch chi at unrhyw ddibenion sy'n gysylltiedig ag addysgu, cymorth, ymchwil, gweinyddu, eich iechyd a'ch diogelwch ac ar gyfer rhesymau eraill y tybir bod eu hangen i gyflawni eich cytundeb contract â'r Brifysgol. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio eich gwybodaeth at rai dibenion pan fyddwch chi'n peidio â bod yn fyfyriwr. Gweler GDPR Erthygl 6(1)(b) |
| (2) | Bydd y Brifysgol yn derbyn *caniatâd* gennych er mwyn helpu gyda'ch anghenion bugeiliol a llesiant (e.e. y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau i fyfyrwyr sydd ag anableddau). Gweler GDPR Erthygl 6(1)(a). |
| (3) | Efallai y bydd angen prosesu eich data personol *wrth ddilyn ein buddiannau cyfreithlon neu oherwydd buddiannau cyfreithlon trydydd parti* – ond dim ond pan nad yw'r prosesu'n perthyn i'r swyddogaeth gyhoeddus graidd, nad yw wedi ei gwarantu ac na fydd yn cael effaith andwyol ar hawliau a rhyddid, neu fuddiannau cyfreithlon, y myfyriwr Gweler GDPR Erthygl 6(1)(f). |
| (4) | Mae angen prosesu Categorïau Arbennig fel y bo angen *ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd i'r Brifysgol* (gweler GDPR Erthygl 6(1)(e)) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler GDPR Erthygl 89). |
| (5) | Mae angen prosesu data Categorïau Arbennig at *ddibenion ystadegol ac ymchwil* yn unol ag erthygl 89(1) ar sail y dyletswyddau yn Neddf Gydraddoldeb 2010 (gweler GDPR Erthygl 9(2)(j)) |

## Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth chi?

Pan fo angen, rhennir gwybodaeth bersonol yn fewnol â Chyfadrannau ac adrannau eraill ar draws y Brifysgol. Diogelir gwybodaeth bersonol gan y Brifysgol ac ni chaiff

gwybodaeth ei datgelu i drydydd partïon heb ganiatâd, neu fel y caniateir o dan y gyfraith. Yn yr adran hon, nodir y prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin lle rydym yn datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr. Lle mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad rhyngwladol, trosglwyddir y wybodaeth yn unig os bydd yn bodloni'r amodau a nodir o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol.

- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) – mae angen i'r Drindod Dewi Sant anfon ychydig o'r wybodaeth a gasglwn am fyfyrwyr i HESA at ddibenion dadansoddi ystadegol ac at ddibenion arolygon megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a'r Arolwg Deilliannau Graddedigion yn ogystal â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) a Deilliannau Graddedigion.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn unol â'n cyfrifoldebau statudol.
- Mae'r Drindod Dewi Sant wedi ei thrwyddedu i noddi myfyrwyr ymfudol o dan Haen 4 o'r system sy'n seiliedig ar bwyntiau. Bydd y Brifysgol yn darparu data am fyfyrwyr ar Fisa Myfyrwyr Haen 4 i'r Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ei thrwydded.
- I noddwyr a rhieni lle rhoddwyd caniatâd neu pan fo'r amgylchiadau yn rhai sylweddol ac y byddai caniatâd o dan gyfraith neu statud cyffredinol..
- Sefydliadau Addysg Uwch eraill: os yw eich rhaglen astudio, er enghraifft, yn cynnwys treulio cyfnod o amser mewn sefydliad y tu allan i'r Drindod Dewi Sant, gan gynnwys Sefydliad Addysg Uwch dramor, neu os oes rhaid i chi ddod i'r Brifysgol yn fyfyriwr gwadd neu gyfnewid, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi â sefydliadau eraill sy'n rhan o'r cyfnewid. Mae hyn at ddibenion gweinyddol ac er mwyn i'r sefydliad arall allu cyflwyno ei ddyletswydd ynghylch eich astudiaethau.
- Cyrff proffesiynol (e.e. Cymdeithas y Gyfraith) er mwyn cadarnhau eich cymwysterau ac achredu eich rhaglen astudio pan fo'n briodol.
- Safleoedd lleoliadau gwaith neu bartneriaid sy'n rhan o ddarparu cyrsiau ar y cyd.
- Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i gadarnhau'r cofrestriad, presenoldeb a hunaniaeth er mwyn i fyfyrwyr allu manteisio ar gymorth ariannol.
- Cwmnïau ad-ennill a rheoli dyledion er mwyn adfer dyled ar ran y Brifysgol, pan fydd gweithdrefnau adennill dyledion mewnol yn aflwyddiannus.
- Darpar gyflogwyr neu ddarparwyr addysg yr ydych wedi mynd atynt
- Asiantaethau'r DU sydd â dyletswyddau ynghylch atal a darganfod troseddau, casglu treth neu doll neu sicrhau diogelwch gwladol.
- Darparwyr gwasanaeth darganfod llên-ladrad yn unol â'r contract, er enghraifft Turnitin
- Awdurdodau Lleol at ddibenion eithriadau rhag treth gyngor pan fo angen hynny er mwyn cynnal buddiannau cyfreithlon Awdurdodau Lleol neu'r myfyriwr ond dim ond pan nad yw'r prosesu'n perthyn i swyddogaeth gyhoeddus graidd, nad yw wedi ei warantu ac na fydd yn cael effaith andwyol ar hawliau a rhyddid, neu fuddiannau cyfreithlon, y myfyriwr.
- Awdurdodau Lleol at ddibenion pleidleisio: pan fyddwch wedi rhoi caniatâd, bydd y Brifysgol yn eich cofrestru chi i bleidleisio yn Etholiadau Lleol a Chyffredinol y DU.
- Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant pan fydd angen dilyn buddiannau cyfreithlon Undeb y Myfyrwyr neu'r myfyriwr er mwyn cymryd rhan mewn prosesau democrataidd, elwa o wasanaethau cynrychioli, ymuno â chlybiau chwaraeon a chymdeithasau a derbyn negeseuon. Os rhoddir caniatâd, bydd y Brifysgol hefyd yn rhannu data ethnigrwydd i alluogi Undeb y Myfyrwyr i fonitro a hyrwyddo ymgysylltiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

- Darparwyr gwasanaethau digidol trydydd parti at ddibenion darparu'r gwasanaethau hynny i chi a/neu'r Brifysgol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain, Microsoft, Clickview, Ponopto, Wordwall, Lanschool, a CollabCo

Bydd unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir gan Y Drindod Dewi Sant yn unig yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data.

## Am faint y caiff eich gwybodaeth chi ei chadw?

Bydd Y Drindod Dewi Sant yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â Pholisi Cadw Cofnodion y Brifysgol.

Ar ôl graddio, bydd angen i'r Brifysgol gadw rhai cofnodion er mwyn iddo allu gwirio dyfarniadau, darparu trawsgrifiadau a darparu tystlythyrau academaidd i gynorthwyo gyda'ch gyrfa, a chynnal manylion cyswllt cywir ar gyfer yr Arolwg Deilliannau Graddedigion.

## Diogelwch eich gwybodaeth

O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae'n rhaid i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hynny y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir pob cam pri odol i rwystro mynediad a datgeliad heb ganiatâd. Dim ond aelodau o'r staff y mae angen iddynt gael mynediad at rannau perthnasol neu eich holl wybodaeth a gaiff hawl i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch chi ar ffurf electronig yn amodol ar gyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra cedwir ffeiliau papur mewn mannau diogel gyda mynediad cyfyngedig.

Mae'n bosibl y gwneir rhywfaint o brosesu ar ran y Brifysgol gan sefydliad a gontractiwyd at y diben hwnnw. Bydd sefydliadau sy'n dal data personol wedi eu rhwymo o dan rwymedigaeth i brosesu data yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

## Beth yw eich hawliau chi?

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth bersonol i wrthwynebu bod eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ac i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol. Os byddwch chi wedi darparu caniatâd i'r Drindod Dewi Sant brosesu unrhyw ran o'ch data. Mae gennych hefyd hawl i ddiddymu'r caniatâd hwnnw. Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Paul Osborne
Swyddog Diogelu Data
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Mount
Pleasant, Abertawe, SA1 6ED
foi@uwtsd.ac.uk
01792 481000

## Sut i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r modd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, i ddechrau cewch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os na fyddwch wedi eich bodloni o hyd, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol at y Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw: -

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF

www.ico.org.uk

## Eich cyfrifoldebau

Mae gennych gyfrifoldeb i gadw eich manylion personol yn gyfredol. Yn ystod eich astudiaethau. efallai y cewch fynediad at wybodaeth bersonol am eraill. Mae disgwyl i chi ymdrin â hyn mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae rhwymedigaeth arnoch i wneud hyn o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn ogystal ag unrhyw foeseg broffesiynol neu godau ymddygiad. Os rhoddir i chi wybodaeth bersonol yn gyfrinachol, disgwylir na fyddwch yn dweud wrth neb heb ganiatâd yr unigolyn, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Ni ddylech chi geisio dod o hyd i ddata personol eraill os nad oes gennych hawl. Ystyrir camau disgyblu yn erbyn unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n torri Deddfwriaeth Diogelu Data neu ddyletswydd cyfrinachedd.

## Ychwanegiadau i Arolwg Profiadau Ôl-raddedigion a Addysgir (PTES) ac Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedigion (PRES)

For the Postgraduate Taught Experience Survey (PTES) and the Postgraduate Research Experience Survey (PRES), University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) is the data controller and Advance HE and JISC are the data processors.

Fel y cyfryw, bydd gan Advance HE a JISC fynediad at yr holl ddata at y dibenion a'r dull a benderfynir gan PCYDDS. Gallai Advance HE a JISC hefyd rannu'r data hyn ag is-brosesyddion sy'n gweithio ar ei rhan.

Mae enghreifftiau o ddiben casglu data a'r dull o wneud hynny o ran y PTES a PRES yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

• Helpu'r Brifysgol i ddeall yn well sut y bu eich profiad dysgu
• Darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer darpar fyfyrwyr
• Hysbysu meysydd ar gyfer gwella gwasanaeth ar draws y Brifysgol
• Hysbysu arfer da ar draws y Brifysgol
• Darparu meincnod ar ein cyfer mewn perthynas â sefydliadau eraill

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch diben a dull casglu data a rôl PCYDDS fel y rheolydd data, gweler y wybodaeth uchod.